Er mwyn cydnabod y ffaith bod Ynni Niwclear yn cael effaith uniongyrchol ar Wynedd, mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo'i hun i adnewyddu ei aelodaeth o Awdurdodau Lleol Di-niwclear sy'n ceisio hyrwyddo dulliau amgen yn hytrach na'r defnydd parhaus o ynni niwclear gan gynnwys dulliau eraill o fuddsoddi er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth realistig fydd wirioneddol ar gael i bobl leol yn y rhan hon o Gymru.

Mae aelodaeth o'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear yn cynnig buddsoddiad gwerth am arian gwirioneddol yn nyfodol Gwynedd, Cymru a Phrydain ac er lles pawb. Dros nifer o flynyddoedd, mae'r aelodaeth wedi rhoi mynediad i Wynedd at Weinidogion a Phwyllgorau ym mhob haen o Lywodraeth yn y DU fyddai ddim ar gael fel arall. Yn ogystal, mae'r aelodaeth wedi rhoi amrywiaeth helaeth o brofiad a lefel o arbenigedd nad yw ar gael i awdurdodau lleol nad ydynt yn aelodau.

Gyda'r cwestiwn niwclear mor amlwg yn y rhan hon o Gymru, mae ymaelodi yn hanfodol er mwyn i Aelodau Gwynedd allu gwneud penderfyniadau deallus pan fydd y penderfyniadau hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar ein cymunedau.

Stephen William Churchman